



17.06.20

Ailagor Ysgol yn raddol

Annwyl Rieni, Gofalwyr a Gwarcheidwaid,

Yn dilyn cyhoeddiad y Gweinidog Addysg am ailagor arfaethedig ysgolion o ddydd Llun 29ain Mehefin, gobeithiaf y bydd y wybodaeth ganlynol yn ddefnyddiol i gefnogi eich penderfyniadau ynghylch eich plant / plentyn yn dychwelyd i'r ysgol.

Mae'r cynnig o ailagor ysgolion yn gyfle i bob disgybl (heblaw y dosbarth Meithrin a Derbyn) ailgydio, dal i fyny a pharatoi ar gyfer bywyd ysgol a ffordd newydd o weithio o fis Medi 2020.

- Mae'r gweinidog wedi ei wneud yn glir bod y dychweliad i'r ysgol cyn gwyliau'r haf yn wirfoddol a gall rhieni ddefnyddio eu disgrisiwn eu hunain p'un ai i anfon eu plentyn i'r ysgol ai peidio.
- O ystyried cyfyngiadau cludiant ysgol, gofynnir i rieni wneud trefniadau i'w plant gael eu cludo i'r ysgol ac yn ôl.
- Dim ond am gyfnodau penodol bob wythnos y bydd disgyblion yn cael y cyfle i fynychu'r ysgol. Rhoddir diwrnod penodol i ddisgyblion sy'n dymuno mynychu maes o law. (Does dim hawl newid y trefniadau dydd sydd wedi ei benodi o dan unrhyw amgylchiadau) Bydd y dychweliad i'r ysgol fesul cam graddol, gyda niferoedd cyfyngedig yn mynychu.
- Bydd brodyr a chworydd yn cael cyfle i fynychu'r ysgol ar yr un diwrnod.
- Bydd disgyblion yn cael eu rhoi mewn grwpiau llai, heb fod yn fwy na 7, mewn ardaloedd dynodedig lle gellir cynnal pellter cymdeithasol 2m. Neilltuir nifer fach o staff yr ysgol i weithio gyda phob grŵp.
- Bydd gan bob grŵp o ddisgyblion amseroedd egwyl a chyfleusterau toiled dynodedig gyda'r nod o gynnal rheoliadau pellter cymdeithasol.
- O ddydd Llun 29ain o Fehefin tan ddiwedd tymor yr haf bydd disgyblion yn gallu mynychu ar eu diwrnod(au) dynodedig mewn gwisg arferol, di-wisg ysgol.
- Bydd y diwrnod ysgol yn dechrau am 9:00 yb ac yn gorffen am 3:00 yp.
- Fe fydd cinio ar gael yn yr ysgol, neu gall ddisgyblion ddod o phe cyn bwyd eu hunain. Rhaid i bob peth fynd adref gyda nhw, gan gynnwys unrhyw sbwriel. Gall ddisgyblion ddod â chot a photel dwr yn unig.
- Ni ddylai unrhyw ddisgybl fynychu'r ysgol os oes ganddo lythyr cysgodi gan Brif Swyddog Meddygol Cymru yn eu cynghori i aros gartref tan 16eg Awst.

- Ni ddylai unrhyw ddisgybl fynychu'r ysgol sy'n arddangos unrhyw un o'r symptomau Covid-19, yn benodol tymheredd uchel, peswch parhaus newydd neu golli'r ymdeimlad o arogl neu flas neu ar ôl yr angen i roi gwrthfotigau neu Calpol.
- Rhaid i bob disgybl sy'n bresennol ddilyn y gofynion sy'n ymwneud â phellter cymdeithasol, golchi dwylo a mesurau eraill i leihau'r risg o ledaenu firws.

Mae diogelwch eich plant a chymuned ehangach yr ysgol sef eich diogelwch chi fel aelodau o gymuned yr ysgol o'r pwys mwyaf. Felly diogelwch disgyblion, staff a'r gymuned ehangach yr ysgol fydd y brif flaenoriaeth wrth ystyried y mesurau wrth ailagor YGG Tyle'r Ynn. Oherwydd mai diogelwch eich plentyn yw ein prif flaenoriaeth, am y dyfodol rhagweladwy, bydd eu profiad ysgol yn wahanol iawn i'r arferol.

Cyn ailagor yr ysgol i ddisgyblion ar ddydd Llun 29ain Mehefin, byddwn yn cymryd nifer o fesurau i sicrhau bod yr holl staff a disgyblion yn cynnal ymarfer diogel yn unol â chanllawiau cenedlaethol ar bellhau cymdeithasol a mesurau diogelwch eraill sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Bydd gofod corfforol yn yr ysgol yn cael ei aildrefnu i wneud y mwyaf o bellter cymdeithasol. Dynodir disgyblion a staff i weithio mewn rhannau o'r ysgol i gynnal gwahaniad rhwng grwpiau. Bydd cyfnodau egwyl ar wahân.

Ar ôl i ni dderbyn ymatebion gan bob rhiant a chael arwydd clir o nifer y disgyblion sy'n dychwelyd, byddwn mewn cysylltiad â phob grŵp blwyddyn gyda manylion penodol yn ymwneud â dychwelyd i'r ysgol.

Rhaid imi bwysleisio mai'r cam cychwynnol pedair wythnos o ailagor ysgolion yw caniatáu i staff a disgyblion gysylltu â'i gilydd, dal i fyny a pharatoi ar gyfer y ffordd newydd o weithio a fydd yn gweithredu o fis Medi. Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon, cysylltwch â'r ysgol a byddwn yn ymdrechu i ateb eich cwestiynau.

Isod mae dolen i ddatganiad y Gweinidog Addysg yn ymwneud ag ailagor ysgolion yn raddol

<https://gov.wales/check-catch-prepare-summer-and-september-all-schools-wales-enter-next-phase>

Rwyf hefyd wedi cyfeirio isod at y canllawiau cenedlaethol mewn perthynas â COVID-19 a phlant mewn lleoliadau addysg. Rwy'n gobeithio y bydd y wybodaeth ychwanegol hon yn eich diweddarau chi â'r sefyllfa bresennol.

<https://gov.wales/schools-increasing-operations-29-june-coronavirus>

Anfonaf Pwerbwyrnt gyda mwy o fanylion yn y dyddiau nesaf, gofynaf i chi drafod cynnwys y sleidiau gyda'ch plentyn os gwelwch yn dda.

Hoffwn bwysleisio mai eich dewis chi yw anfon eich plentyn yn ôl i'r ysgol a minnau'n deall y gallai hwn fod yn benderfyniad anodd i lawer ohonoch. Fel pennaeth a rhiant, byddaf yn parchu eich benderfyniad - y naill ffordd neu'r llall!

Gyda'r dymuniadau gorau i chi a'ch teuluoedd, Cadwch yn iach ac yn ddiogel.

Yr eiddoch yn gywir

Mr C Humphreys.

Pennaeth/Headteacher: Mr C Humphreys

YGG Tyle'r Ynn

Llansawel Crescent, Llansawel, Castell
Nedd, Nedd Port Talbot, SA112UN

Dirprwy Bennaeth/Deputy Headteacher: Mrs L Vaughan

Ffôn/Phone: 01639 812229

e-bost/e-mail: yggtylerynn@npt.school

Gwefan/Website: <http://ygg-tyler-ynn.j2bloggy.com/cy/>